

## Uned Trafnidiaeth Integredig

### **Pandemig COVID-19 - Gwybodaeth ynghylch Cludiant Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol Ar gyfer Rhieni/Cynhalwyr Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

#### **Cefndir**

Mewn ymateb i argyfwng pandemig byd-eang y Coronafeirws (COVID-19), caeodd Llywodraeth Cymru bob ysgol ar gyfer addysg o 20 Mawrth 2020, gyda dim ond hyn a hyn ar agor i ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol a disgyblion sy'n agored i niwed.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y bydd disgyblion yn cael y cyfle i ddychwelyd i'r ysgol o 29 Mehefin 2020 am bedair wythnos cyn gwyliau'r haf. Bydd y disgyblion yn cael eu dysgu mewn grwpiau bach ond fyddan nhw ddim yn yr ysgol bob dydd. Dim ond traean o'r disgyblion fydd yn yr ysgol ar unrhyw adeg. Dyma gyfle i ddisgyblion weld eu hathrawon, myfyrion ar y cyfnod a dal i fyny ar eu haddysg, yn ogystal â pharatoi ar gyfer mis Medi.

Gan fod cadw pellter cymdeithasol yn hynod o heriol, rydyn ni'n annog rhieni a chynhalwyr (gofalwyr) i fynd â'u plant i'r ysgol drwy gerdded neu feicio, neu mewn car preifat, yn hytrach na defnyddio cludiant penodedig yr ysgol.

Gan na fydd hyn yn bosibl i rai preswylwyr, bydd y Cyngor yn ailddechrau ei holl wasanaethau cludiant penodedig i ysgolion, gan weithredu ar gapasiti o 20%, ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd heb unrhyw ddull arall o deithio o 29 Mehefin 2020. Dim ond y disgyblion hynny y mae eu hysgol wedi cysylltu â nhw i gadarnhau eu trefniadau cludiant fydd yn cael teithio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor [www.rctcbc.gov.uk/CwestiynauCyffredinYsgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/CwestiynauCyffredinYsgolion).

**Mae'n hanfodol fod disgyblion ddim yn teithio ar gludiant ysgol os ydyn nhw'n teimlo'n anhwylyd, yn enwedig os oes ganddyn nhw symptomau o COVID-19, sy'n cynnwys peswch newydd a pharhaus, tymheredd uchel, neu gollu blas neu arogl, neu os ydyn nhw'n byw mewn cartref gyda rhywun sy'n dangos unrhyw un o'r symptomau yma. Dylen nhw hunan-ynysu ac aros gartref.**

#### **Gwybodaeth**

Mae'r wybodaeth yma wedi'i llunio ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r Cyngor yn effro i bryderon y teuluoedd hynny sy'n poeni am gludiant o'r cartref i'r ysgol yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth yma'n rhoi manylion am y mesurau rydyn ni wedi'u cyflwyno a sut y gallai hyn effeithio ar eich teulu.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am:

1. Mesurau diogelwch ar gludiant o'r cartref i'r ysgol;
2. Beth sy'n digwydd dros yr wythnosau nesaf;
3. Sut y gall hyn effeithio ar eich teulu;
4. Camau nesaf.

## 1. **Mesurau diogelwch ar gludiant o'r cartref i'r ysgol**

Mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/coronafeirws> i sicrhau ei fod yn cludo plant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol mor ddiogel â phosibl yn ystod pandemig COVID-19.

Wrth i'r niferoedd sydd angen cludiant gynyddu, byddwn ni'n parhau i weithio yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl.

### **Seddau ac ar y cerbyd**

Rhaid i blant a phobl ifainc, yn ogystal ag oedolion, gadw at y rheolau cadw pellter cymdeithasol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i bobl eraill. Bydd capasiti ar y cerbydau yn gyfyngedig i tua 20% a bydd y rhai sy'n teithio yn cael eu gwasgaru.

Bydd cynllun seddau yn ei le ar gyfer pob taith a bydd seddau does dim modd eu defnyddio yn cael eu marcio'n glir. Fel lleiafswm, bydd eich plentyn yn:

- cael sedd wag ar ei ochr dde a chwith NEU;
- yn eistedd ar ddiwedd rhes, gyda sedd wag wrth ei ymyl;
- fydd dim seddau wyneb i wyneb.

Efallai y bydd rhaid defnyddio cerbydau mwy er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol, felly mae'n annhebygol y bydd tacsis (ceir) yn cael eu defnyddio. Efallai y bydd y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i gludo eich plentyn yn fwy na'r hyn y mae wedi arfer ag ef. Os bydd tacsî yn cael ei ddefnyddio, efallai y bydd sgrin yn gwahanu'r plentyn oddi wrth y Gyrrwr a'r Cynorthwy-ydd Teithwyr.

Bydd cerbydau wedi'u hawyru'n dda yn ystod y daith, felly bydd y ffenestri ar agor.

Penderfyniad rhieni/cynhalwyr ydyw i'w plant ddefnyddio cludiant i'r ysgol ai peidio. Efallai byddan nhw'n teimlo'n bryderus am y sefyllfa a byddai'n well gyda nhw wneud eu trefniadau eu hunain er mwyn cludo'u plant i'r ysgol ac yn ôl adref.

Pe byddech chi'n penderfynu y byddai'n well gyda chi gludo'ch plentyn i'r ysgol eich hun, rhowch wybod i'r Pennaeth er mwyn iddo neilltuo'r lle i blentyn arall y mae angen y cludiant arno.

### **Gyrrwr a Chynorthwywyr Teithwyr**

Efallai y bydd Gyrrwr a Chynorthwy-ydd Teithwyr gwahanol i'r arfer gan eich plentyn oherwydd mesurau 'gwarchod', ond mae'r Uned Trafnidiaeth Integredig (ITU) yn ceisio sicrhau cysondeb lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd yr un cerbydau a staff yn cael eu defnyddio i ddarparu cludiant o ddydd i ddydd pan fo hynny'n bosibl.

Bydd gofyn i chi roi cymorth wrth roi eich plentyn ar y cerbyd, megis cymorth â gwregysau diogelwch gan sicrhau eich bod yn cadw pellter cymdeithasol rhag y Gyrrwr a'r

Cynorthwy-ydd Teithwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n golchi'ch dwylo cyn rhoi unrhyw gymorth ac yn defnyddio diheintydd llaw sydd ag o leiaf 60% o alcohol.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai plant a phobl ifainc tra byddan nhw'n teithio ac ni fydd yn bosibl cadw pellter cymdeithasol. Bydd gwybodaeth am risg yn cael ei darparu mewn amgylchiadau o'r fath a bydd angen i Yrwy a Chynorthwyr Teithwyr ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol.

Fel arfer bydd PPE yn cynnwys ffedogau a menig. Dydy gorchuddion a fisorau wyneb ddim wedi'u cynnwys yng nghanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ond efallai y bydd rhai Gyrwyr a Chynorthwyr Teithwyr yn dewis eu gwisgo.

## **Glanhau a Diheintio**

Bydd cerbydau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl pob taith gan dalu sylw arbennig i fannau cyffwrdd gan gynnwys dolenni drysau, allweddi, rheiliau llaw, manau gorffwys pennau/breichiau, cefnau seddi, clustogau sedd, gwregysau diogelwch, rheolyddion gyrwyr.

Lle y bo'n bosibl, bydd cynhyrchion glanhau a fydd yn lladd firws COVID-19, fel y rhai sy'n cael eu cynhyrchu yn ôl safon Brydeinig **BS EN 1276 neu BS EN 13697**, yn cael eu defnyddio i amddiffyn yn erbyn COVID-19.

## **2. Beth sy'n digwydd dros yr wythnosau nesaf**

Byddwch chi'n derbyn rhestr o ddyddiau y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol. Fydd cludiant DDIM yn cael ei ddarparu heblaw'r hyn sydd wedi'i gytuno gyda'r ysgol. Efallai y bydd yr amseroedd y bydd eich plentyn yn cael eu cludo yn wahanol i'r amseroedd arferol, ond byddwch chi'n cael gwybod am unrhyw newidiadau gan ysgol eich plentyn cyn i'r cludiant ddechrau.

Mae disgwyl i ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru wrth iddi geisio rheoli'r firws barhau i newid drwy gydol yr haf. Bydd y Cyngor yn monitro'r newidiadau hynny er mwyn sicrhau bod y trefniadau cludiant priodol yn eu lle erbyn mis Medi. Byddwn ni'n cysylltu â chi cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd i esbonio unrhyw newidiadau yn y trefniadau cludiant ar gyfer mis Medi 2020.

## **3. Sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi a'ch teulu**

Bydd cludiant i'r ysgol yn wahanol i'r hyn y mae eich plentyn yn gyfarwydd ag ef o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, a'r mesurau sy'n ceisio atal ei ymlediad. Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi siarad â'ch plentyn am PPE ac egluro ei bod yn debygol y bydd y Gyrrwr a'r Cynorthwy-ydd Teithwyr yn gwisgo menig, ffedogau ac, mewn rhai achosion, orchudd wyneb a/neu fisor.

Dangoswch y lluniau iddyn nhw lle bo'n bosibl ac esboniwch nad oes dim byd i'w ofni. Yn hytrach, mae'n ffordd o sicrhau eu bod nhw'n ddiogel yn ystod eu taith i'r ysgol ac oddi yno. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai modd i chi egluro i'ch plentyn pam nad oes modd iddo eistedd wrth ymyl ei ffrindiau.

Mae stori gymdeithasol fer '*Fy Nhaith i'r Ysgol*' i'w gweld ar ddiwedd yr wybodaeth yma. Efallai y bydd o ddefnydd wrth egluro i'ch plentyn sut y bydd y trefniadau cludiant yn wahanol i'r hyn y maen nhw'n gyfarwydd ag ef.

Penderfyniad rhieni/cynhalwyr ydyw i'w plant ddefnyddio cludiant i'r ysgol ai peidio. Efallai byddan nhw'n teimlo'n bryderus am y sefyllfa a byddai'n well gyda nhw wneud eu trefniadau eu hunain er mwyn cludo'u plant i'r ysgol ac yn ôl adref.

Os ydych chi'n penderfynu y byddai'n well gyda chi gludo'ch plentyn i'r ysgol eich hun, rhowch wybod i'r Pennaeth er mwyn iddo neilltuo'r lle i blentyn arall y mae angen y cludiant arno.

#### **4. Camau Nesaf**

Bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael ei ddarparu i blant a phobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a bydd y gwaith yn parhau yn ystod gwyliau'r haf i sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar waith erbyn mis Medi 2020. Byddwch chi'n cael gwybod am drefniadau cludiant cyn dechrau'r tymor newydd ym mis Medi.

**23 Mehefin 2020**

**Uned Trafnidiaeth Integredig**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Cysylltiadau Perthnasol**

<https://llyw.cymru/coronafeirws>


[www.rctcbc.gov.uk/CwestiynauCyffredinYsgolion](http://www.rctcbc.gov.uk/CwestiynauCyffredinYsgolion).

# Fy nhaith i'r ysgol

Bydd fy nhaith i'r ysgol yn wahanol.




Mae hyn er mwyn helpu i atal lledaeniad y Coronafeirws a chadw pawb yn ddiogel.



*Stay safe  
everyone.*

Efallai y byddaf i'n teithio ar amser gwahanol.



Efallai na fydd gen i'r un gyrrwr a chynorthwy-ydd teithwyr ag o'r blaen.



Efallai y bydd fy ngyrrwr a fy nghynorthwy-ydd teithwyr yn gwisgo menig a ffedog.



Efallai y byddan nhw hefyd yn gwisgo mwgwd, fisor, neu orchudd dros eu ceg.



Paid â bod ofn, mae hyn er mwyn dy ddiogelu di.

Byddaf yn teithio gyda llai o bobl.

Efallai na fyddaf yn teithio gyda fy ffrindiau na'r un plant a oedd ar y bws mini ag o'r blaen.




Efallai y byddaf yn teithio mewn cerbyd mwy nag o'r blaen.





Fydd neb yn eistedd wrth fy ymyl.



Does dim hawl gyda fi fwyta nac yfed ar y bws mini.

